

Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

Y Cynghorydd M Clarke

Ward: Bae Rest

Plaid: Annibynnol (Grŵp Cynghrais Annibynnol)

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben **30 Ebrill 2018**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Bae Rest ar 4 Mai 2017. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol 41 o ymholiadau etholwyr gyda'r cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill rydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynd i nifer o weithgareddau datblygu aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y cyngor a'm ward.

Ceir rhagor o wybodaeth am fy [rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau](#) drwy ddilyn y ddolen hon.

Gweithgarwch Etholaeth

Yn ystod yr ymgyrch etholiadol ymwelais â phob aelwyd ym Mae Rest, ac yn dilyn y trafodaethau hynny lluniais faniffesto o ymrwymadau yr wyf yn gweithio drwyddynt ar hyn o bryd.

Rwyf wedi gweithio gyda swyddogion ac eraill er mwyn sicrhau dechrau gwneud gwelliannau i balmentydd, gosod arwyddion ffyrdd newydd yn lle rhai coll, mynd i gyfarfodydd PACT yn rheolaidd a gweithredu ar bryderon. Rwy'n gweithio gydag aelod y ward gyfagos, Notais er mwyn sicrhau gwelliannau i ddiogelwch ffyrdd ger ysgolion.

Yn dilyn cyflwyniad anhrefnus i system ailgylchu newydd Keir, cynhyrchwyd llwyth gwaith enfawr ac mewn sawl achos roeddwn wedi danfon offer i drigolion.

Mae llawer o waith cynghorydd ar sail unigol gyda thrigolion ac nid yw'n briodol rhoi manylion am hynny yn yr adroddiad hwn. Mae fy nghyfradd atgyfeirio ar gyfer gweithredu gan y cyngor yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer cynghorwyr.

Un llwyddiant sylweddol fu gweithio gyda'r Cynghorydd Norah Clarke i ysgogi

gwrthwynebiadau i gael gwared ar gymorthdaliadau bysiau lleol ac os caiff y rhain eu dileu byddai'n golygu na fyddai gan rannau mawr o Borthcawl fynediad i drafnidiaeth gyhoeddus.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Rwyf wedi bod ar flaen y gad o ran ceisio ateb ar gyfer llnastr adfywio'r Llyn Heli. Mynegais farn trigolion o ran gwrthod carped o dai o blaid datblygiad cymysg. Rwyf hefyd wedi mynegi'n gryf gydag aelodau eraill CBSP bod yn rhaid i unrhyw ddatblygiad gynrychioli bargaen deg i'r trethdalwr a'r awdurdod ac na ddylai ffafrio'r tiffeddianwyr.

Dechreuais brosiect mawr biniau Cyngor Tref Porthcawl a'i lywio hyd at gymeradwyo buddsoddiad.

Cynghorais grwpiau chwaraeon lleol ar sut i ffurfio partneriaeth er mwyn sicrhau cynnig trosglwyddo asedau cymunedol ar gyfer caeau chwarae Bae Rest

Gweithgareddau/Materion Eraill

Rwyf hefyd wedi arwain trafodaethau trosglwyddo asedau cymunedol Cyngor Tref Porthcawl ar gyfer toiledau Parc Griffin.

Yn y gymuned rwy'n gadeirydd ymddiriedolwyr Cadetiaid Môr Porthcawl ac yn gadeirydd CIC Glan yr Harbwr Porthcawl sydd wrthi'n adfywio Cosy Corner ar hyn o bryd.

Y Cyngorydd M Clarke:

Dyddiad: 29 Mai 2018